**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU IEUENCTID (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 YN FLAENOROL) - DYDD IAU, 8 MAI 2025**

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 8 MAI AM 11:00

Presennol

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | D M Hughes |

Presennol yn Rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| T Thomas | AJ Williams | E D Winstanley |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, H Griffiths, J Llewellyn-Hopkins ac I M Spiller

Michelle Joyner – Pennaeth y Bont
Andrea Williams – Uwch Seicolegydd Addysg (a chyswllt CAMHS yr Awdurdod Lleol)

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Gail Biggs | Rheolwr Grŵp - Cymorth i Ddysgwyr |
| Lloyd Hughes | Arweinydd Cyfathrebu a Pherthnasoedd |
| Megan Apsee | Rheolwr Tîm Ymgysylltu ag Addysg |
| Clare Shears | Cydlynydd Rhaglen Hyrwyddo Iechyd a Lles mewn Lleoliadau Addysgol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |

Penaethiaid:

| | |
|---|---|
| Ravi Pawar | Pennaeth Ysgol Gyfun Bryntirion a Chadeirydd Cymdeithas Penaethiaid Uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr |
| Kath John | Pennaeth Ysgol Gynradd Bracla a Chadeirydd Ffederasiwn yr Ysgolion Cynradd |
| Ryan Davies | Pennaeth Ysgol Gyfun Brynteg |
| Rachel John | Pennaeth Ysgol Gynradd Newton |
| Helen Ridout | Pennaeth Ysgol Bryn Castell |
| Jonathan Lewis | Pennaeth Ysgol Gynradd Coety |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu dros dro |

Datganiadau o Fuddiannau:

Dim.

## 72. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 1, dyddiedig 31 Mawrth 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mai 2025 |

## 73. Ymddygiad Disgyblion, Presenoldeb a Gwaharddiadau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet, Uwch Swyddogion, Penaethiaid a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>**1.** Bu'r Pwyllgor yn trafod yr heriau ariannol i'r awdurdod lleol, nifer yr ysgolion sydd â chyllidebau diffygiol a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar leihau nifer y staff therapiwtig a staff cymorth eraill.<br><br>a. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr effaith yr oedd y sefyllfa gyllidebol gymhleth yn ei chael ar wasanaethau cwnsela ac ymyrraeth gynnar ac **argymhellwyd** y dylid cyfeirio'r mater i sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid yn y rownd gyllidebol nesaf ac, os bydd angen arbedion cyllidebol, eu bod i gael eu canfod mewn mannau eraill.<br><br>**b.** At hynny, gan fod model gweithredu sylfaenol yn cael ei fabwysiadu ar draws pob prosiect a ariennir gan y Gronfa Ffyniant a Rennir, mae prosiectau Inspire+ y gyfarwyddiaeth, sy'n darparu cefnogaeth hanfodol i ddisgyblion a phobl ifanc agored i niwed, y mae llawer ohonynt yn wynebu heriau ymddygiad a/neu broblemau presenoldeb mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol, **gofynnodd** yr Aelodau am i'r ffigurau ar y ffordd y mae'r gronfa'n cael ei rhannu rhwng cyfarwyddiaethau gael eu rhoi i COSC / Gweithgor Cyllideb Craffu.<br><br>**2. Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r awdurdod lleol, drwy'r Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd, asiantaethau ac ysgolion eraill archwilio a rhannu arfer gorau o ran ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion. Yn neilltuol, mynegodd yr Aelodau yr angen i ddull ymarfer oedd yn gyfarwydd â thrawma fod yn gyffredin mewn ysgolion a hyrwyddo dealltwriaeth o derfynau, gwerthoedd, a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhan o gymuned ysgol dda. Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith y dylai hyn gymryd i ystyriaeth ganfyddiadau yn adroddiad thematig diweddaraf Estyn, "*Meithrin parch ar y ddwy ochr – hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol yn yr ysgol uwchradd*", sef bod arweinyddiaeth gref, rheolaeth gyson ar ymddygiad, ac ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol i gynorthwyo i wella ymddygiad disgyblion ar draws ysgolion uwchradd |

| | |
|---|---|
| | yng Nghymru.<br><br>3. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid darparu hyfforddiant mewn rheoli ystafell ddosbarth a datrys gwrthdaro fel rhan o raglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, gan gynnwys strategaethau a thechnegau i ymdrin ag aflonyddwch ac i gryfhau perthnasoedd a meithrin diwylliant cadarnhaol.<br><br>4. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch yr '*anghydraddoldebau ar draws ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n awgrymu bod effeithiolrwydd strategaethau presenoldeb yn cael ei weithredu'n anwastad ar draws gwahanol leoliadau ysgol*' a chlywsant gan benaethiaid fod diwylliant cadarnhaol ysgol yn cael ei adeiladu orau o'r tu mewn ym mhob ysgol a rhoddwyd enghraifft o 'Ffordd Bryntirion' a ddatblygwyd yn Ysgol Gyfun Bryntirion. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried rhoi cyfle i ysgolion rannu arferion gorau a strategaethau a datblygu 'Ffordd Pen-y-bont ar Ogwr' i wella cysondeb gweithredu strategaethau presenoldeb ar draws y fwrdeistref.<br><br>5. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith y rhestrau aros hir am ddarpariaeth arbenigol yn Ysgol Bryn Castell a'r Bont ar iechyd meddwl, diogelwch a lles dysgwyr oedd yn disgwyl am ddarpariaeth o'r fath a dysgwyr a staff mewn ysgolion prif ffrwd ac **argymhellodd** ychwanegu'r mater hwn at y Gofrestr Risg Gorfforaethol.<br><br>6. Mynegodd y Pwyllgor ei siom, o ystyried pwysigrwydd gweithio integredig, nad oedd unrhyw un o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn bresennol yn y cyfarfod, ac **argymhellodd** anfon gohebiaeth at y Bwrdd Iechyd yn mynegi ei siom ac yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:<br><br>a. Y llwybr atgyfeirio a'r meini prawf ar gyfer cymorth gan CAMHS; a<br>b. Y rhestrau aros cyfredol a'r capasiti.<br><br>7. Cydnabu'r Pwyllgor fod nifer y gwaharddiadau tymor penodol o ran y plant oedd wedi bod mewn gofal yn anghymesur o uchel ar gyfer y flwyddyn 2023-24 ac **argymhellodd** y dylid cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet ynghylch y gefnogaeth a'r canllawiau i ddysgwyr yn y sefyllfa hon. |

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:**<br><br>8. Cydnabu'r Pwyllgor fod data ar goll o'r Tablau drwy'r adroddiad i gyd oherwydd materion yn ymwneud â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a **gofynnodd** am i'r data coll gael ei rannu gydag Aelodau'r Pwyllgor yn gyfrinachol. **Gofynnodd** yr Aelodau hefyd am rannu'r data fesul grwpiau blwyddyn, er mwyn iddynt fedru deall yn well y graddau yr oedd y materion hyn yn effeithio ar ddisgyblion iau a/neu hŷn.<br><br>9. **Gofynnodd** y Pwyllgor am y data oedd ar gael ynghylch y graddau yr oedd digwyddiadau treisgar yn effeithio ar absenoldeb salwch staff addysgu neu yn peri iddynt adael y proffesiwn.<br><br>10. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i adborth ysgrifenedig gael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025.<br><br>11. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i'r sleidiau a rannwyd yn ystod y cyfarfod gan Gydlynydd Rhaglen Hyrwyddo Iechyd a Lles mewn Lleoliadau Addysgol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gael eu dosbarthu i'r Aelodau.<br><br>12. Mynegodd y Pwyllgor bryder, er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru yn dadlau dros ysgolion sy'n gyfarwydd ag effeithiau trawma, mai dim ond 22% o addysgwyr yng Nghymru a nododd eu bod wedi derbyn hyfforddiant cysylltiedig â hyn a **gofynnodd** beth oedd y ganran gyfatebol o addysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd wedi cael eu hyfforddi, gan dynnu sylw at y risg y gallai staff oedd heb dderbyn hyfforddiant gamddehongli symptomau trawma fel ymddygiad herfeiddiol; ac y gallai hynny arwain at weithdrefnau gwahardd.<br><br>13. Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai yn ddiweddar y cafodd y Protocol Symudiadau Rheoledig newydd ei lansio ac felly mai ychydig iawn o ddata oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd Protocol blaenorol yn ei le a **gofynnodd** yr Aelodau am y ffigurau hanesyddol hynny.<br><br>14. **Gofynnodd** y Pwyllgor i ddiweddariadau rheolaidd gael eu darparu ar:<br><br>a. Gwaith y Grŵp Strategaeth ar Ddigwyddiadau Cysylltiedig ag Arfau mewn Lleoliadau Addysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr; a<br><br>b. Gwybodaeth reoli ar lefel y Gyfarwyddiaeth a gâi ei rhoi i gyfarfodydd misol y tîm uwchreoli am |

| | |
|---|---|
| | ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mai 2025 |

## 74. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, ei fod wedi nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am ychwanegu'r eitemau canlynol at ei Flaenraglen Waith:<br><br>a. Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr.<br>b. Y broses gynllunio ar gyfer moderneiddio ysgolion yn y dyfodol (i gynnwys diweddariad ar sut yr oedd cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol yn datblygu) a chynnal a chadw ysgolion.<br>c. Dysgu digidol a diogelu ar-lein (i gynnwys defnyddio ffonau symudol/dyfeisiadau).<br>d. Adroddiad cau ar y Cynllun Strategol Addysg a Chymorth i Deuluoedd, 2023-2026.<br>e. Canlyniadau arholiadau dilys (i'w cyflwyno ym mis Ionawr 2026).<br>f. Cyllidebau ysgolion. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mai 2025 |

## 75. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mai 2025 |

I weld rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:00.